# Cynhyrchu delweddau mamograffeg ategol ac ychwanegol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gosod unigolion yn eu safle a chynhyrchu delweddau mamograffeg ategol ac ychwanegol yn ôl yr angen. Y bobl allweddol yw'r rheiny sydd ynghlwm â gofal yr unigolyn a phobl eraill sydd ynghlwm â darparu gwasanaethau. Bydd angen i ddefnyddwyr y safon hon sicrhau bod eu hymarfer yn adlewyrchu'r wybodaeth a'r polisïau diweddaraf.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwirio bod y peiriant mamograffeg yn ddiogel ac yn perfformio cystal â phosibl cyn ei ddefnyddio 2. sicrhau bod yr amgylchedd yn eich galluogi i gynnal preifatrwydd ac urddas yr unigolyn 3. gwirio'r manylion adnabod cyn dechrau'r broses yn unol â pholisïau a gweithdrefnau lleol 4. cyfathrebu â'r unigolyn/bobl allweddol er mwyn gwella eu dealltwriaeth o'r archwiliad a'u cydweithrediad 5. pennu gallu'r unigolyn i ddeall y weithdrefn gyda chymorth y bobl allweddol os oes angen 6. cael cydsyniad dilys ar gyfer y weithdrefn yn unol â chanllawiau cenedlaethol a lleol 7. esbonio'r weithdrefn mewn modd sy'n annog yr unigolyn i ymlacio a chydweithredu â gofynion y weithdrefn 8. parchu preifatrwydd, urddas, credoau a phenderfyniadau'r unigolyn 9. asesu anghenion emosiynol yr unigolyn ac ymateb mewn modd priodol 10. gwirio'r wybodaeth berthnasol yn ymwneud â'r unigolyn a'i defnyddio i amlygu'r delweddau priodol sy'n ofynnol ar gyfer y weithdrefn gan ymgynghori â gweithwyr proffesiynol perthnasol a gan ddilyn protocol lleol 11. gofyn cwestiynau priodol targededig yn ymwneud â hanes yr unigolyn ac unrhyw symptomau sydd wedi dod i'r amlwg 12. ystyried amrywiaeth o gyfarpar mamograffeg ategol er mwyn eich helpu i osod delweddau priodol 13. ystyried y technegau ategol ac ychwanegol sydd eu hangen i ddangos yr ardal sydd o ddiddordeb o fewn y fron 14. cyfathrebu'r camau sy'n rhan o osod yr unigolyn 15. cynhyrchu delweddau mamograffeg ategol ac ychwanegol yn unol â'r safonau cyfredol 16. sicrhau bod y delweddau'n cael eu gwirio am ansawdd diagnostig ac y gwneir penderfyniad i ailadrodd y delweddau os oes angen 17. sicrhau bod yr unigolyn yn cael gwybod am y broses adrodd ac yn cael unrhyw wybodaeth ychwanegol angenrheidiol 18. labelu'r delweddau'n gywir ac yn barhaol gyda manylion adnabod yr unigolyn cyn eu prosesu neu eu storio 19. cydnabod ble mae angen help neu gyngor a chael gafael arno o ffynonellau priodol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y gofynion cyfreithiol, sefydliadol a pholisi sy’n berthnasol i’ch rôl, rôl pobl eraill yn eich sefydliad a’r gweithgareddau a wneir 2. y safonau, canllawiau, polisïau a gweithdrefnau lleol a chenedlaethol perthnasol sydd ar gael a sut a phryd dylid mynd atynt 3. pwysigrwydd parchu diwylliant, preifatrwydd, urddas, dymuniadau, credoau a phenderfyniadau unigolion 4. cyfyngiadau eich gwybodaeth a’ch profiad eich hun a phwysigrwydd gweithredu o fewn cwmpas eich ymarfer 5. rolau a chyfrifoldebau aelodau eraill y tîm 6. pwysigrwydd cael cydsyniad dilys yn unol â chanllawiau cenedlaethol a lleol 7. pwrpas gwasanaethau diagnostig a sgrinio’r fron 8. y rhaglenni sicrhau ansawdd mewn gwasanaethau symptomatig, asesu a sgrinio’r fron 9. y polisi a’r protocol lleol ar gyfer trefnu a gweithio gyda hebryngwr 10. pwysigrwydd a goblygiadau adnabod yr unigolyn yn gywir 11. y newidiadau o ran delweddau, golwg corfforol neu deimlad meinwe’r fron o ganlyniad i oedran, llawdriniaeth, cyflwr hormonaidd, meddyginiaeth neu radiotherapi 12. anatomeg, ffisioleg a phatholeg y fron, y gesail, meinwe o dan y croen a strwythurau cysylltiedig 13. arwyddion a symptomau sylfaenol canser y fron 14. pwysigrwydd labelu’n gywir, yn unol â phrotocol lleol 15. sut dylid arddangos y delweddau’n gywir 16. anatomeg a ffisioleg y corff dynol 17. pathoffisioleg clefydau’r fron 18. ffiseg ymbelydredd sylfaenol a delweddu pelydr-x 19. risgiau anhwylderau yn ymwneud â’r gwaith, a sut i leihau’r risgiau 20. y rhesymau pam mai’r defnyddiwr sy’n gyfrifol am gadarnhau bod y cyfarpar yn gweithio’n iawn 21. nodweddion, manylebau a nodweddion perfformiad peiriannau mamograffeg a systemau cyfathrebu ac archifo lluniau (PACs) 22. ble a sut i gael mynediad at gofnodion a delweddau blaenorol a sut i ychwanegu rhagor o wybodaeth 23. nodweddion cyfarpar mamograffeg a’r broses ddelweddu 24. pwysigrwydd rhoi gwybod am ddiffygion a namau’n brydlon a’r gweithdrefnau cywir ar gyfer rhoi gwybod am y rhain 25. pwysigrwydd a goblygiadau dewis y golwg delweddu cywir 26. pwysigrwydd prosesau rheoli heintiau da a sut i’w defnyddio 27. y gweithdrefnau lleol ar gyfer gwirio cyfarpar mamograffeg a systemau cyfathrebu ac archifo lluniau (PACs) a pha mor bwysig yw cynnal y rhain yn rheolaidd 28. y wybodaeth berthnasol y dylid ei cheisio a’i chofnodi 29. beth sy’n creu arteffactau ar ddelweddau a pha mor bwysig yw eu hatal rhag bod yn bresennol 30. sut i addasu arddulliau cyfathrebu, gofyn cwestiynau a gwrando’n ofalus mewn ffyrdd sy’n briodol i anghenion yr unigolyn 31. dulliau cyfathrebu gwybodaeth anodd a chymhleth i unigolion a phobl allweddol 32. pwysigrwydd rhoi cyfleoedd i unigolion a phobl allweddol ofyn cwestiynau a gwella eu dealltwriaeth 33. y wybodaeth y dylid ei rhoi i unigolion cyn, yn ystod ac ar ôl cwblhau’r archwiliad 34. yr angen am gydymffurfiaeth yr unigolyn trwy gydol y delweddu a’r ffactorau a all ddylanwadu ar gydymffurfio 35. y gwahanol ffyrdd posibl o achosi gofid ac anesmwythder a dealltwriaeth o’r strategaethau ar gyfer ymdrin â’r rhain 36. yr angen i optimeiddio’r ddos o ymbelydredd y mae’r unigolyn yn ei dderbyn 37. y ffactorau sy’n dylanwadu ar y gosodiadau amlygiad 38. y gweithdrefnau ar gyfer adrodd ar ganlyniadau a phwysigrwydd rhoi gwybodaeth amserol a chywir i’r unigolyn 39. y safonau radiograffig ar gyfer cynhyrchu’r mamogram diagnostig gorau posibl 40. technegau i optimeiddio safle’r fron er mwyn goresgyn cyfyngiadau corfforol 41. technegau i optimeiddio’r safle wrth ddelweddu bronnau sydd wedi’u mwyhau 42. pwysigrwydd lleihau unrhyw anesmwythdra diangen a sut i wneud hynny 43. gweithdrefnau’n ymwneud â chofnodi, casglu a pharatoi gwybodaeth, dogfennau a delweddau priodol i’w trosglwyddo neu eu storio yn unol â phrotocol lleol 44. sut i gadw cofnodion llawn, cywir a chlir yn unol â gweithdrefnau sefydliadol

## Cysylltiadau Allanol